# Eich Newyddlen

Newyddlen y tenantiaid ar gyfer Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych

**Rhifyn dau - Gwanwyn 2018**

# Pennaeth Tai'r wedi 'i enwebu am wobr yn y diwydiant

2018 HOUSING HEROES AWARDS

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Jamie Groves, Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Tai wedi'i gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer gwobr Arweinydd y Flwyddyn 2018 y Gwobrau Arwyr Tai.

Mae'r Wobr hon yn cydnabod unigolyn sy'n ysbrydoli eraill drwy eu gallu i arwain; rhywun sy'n arwain drwy esiampl ac yn sicrhau canlyniadau rhagorol drwy gael y gorau o'u tîm.

Meddai Jamie: "Mae'n fraint ac yn anrhydedd cael fy enwebu a chyrraedd y rhestr fer ar gyfer y wobr hon.  Ni fyddai unrhyw rai o lwyddiannau'r Gwasanaeth Tai wedi bod yn bosibl heb tîm anhygoel ymroddedig staff sy'n gweithio'n ddiflino i wella tai yn Sir Ddinbych ac i wella ansawdd bywyd ein preswylwyr.  Rydym wedi cymryd camau i ddatblygu'r Gwasanaeth a'i wneud yn un o'r Gwasanaethau perfformio gorau yng Nghymru.

**Am ragor o wybodaeth ewch i'n tudalennau Facebook neu Twitter.**



**Buddsoddiad**

Yn ystod 2018-19 rydym yn bwriadu buddsoddi £6m ychwanegol yn ein stoc dai.

**Tudalen 4**

**Credyd Cynhwysol (Cymorth i Arbed Arian)**

Ers 11 Ebrill, mae Credyd Cynhwysol wedi ei weithredu yn Sir Ddinbych.  Golygai hyn os byddwch chi'n gwneud cais newydd, bydd angen i chi ymgeisio am Gredyd Cynhwysol.

**Tudalen 8-9**

**Cymunedau: (datblygiad cymunedol)**

Thema allweddol i gydlynwyr datblygu cymunedol yw i'ch cael chi yn fwy o ran o'r hyn rydym ni'n ei wneud.

**Tudalen 18**

# Yn y rhifyn hwn

## Tai Sir Ddinbych:

Croeso gan Jamie Groves — **Td.3**

Mynd yn ddigidol yr Haf hwn! — **Td.13**

Canlyniadau arolwg STAR a be' nesa' — **Td.16-17**

## Cymuned a Phobl:

Neges gan Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych — **Td.3**

Sbotolau Cymunedol - Cysgodfa, Dinbych — **Td.6**

Cyngor Arbed Arian — **Td.7**

Credyd Cynhwysol — **Td.8-9**

Digwyddiadau'r Haf yn ac o amgylch Sir Ddinbych — **Td.10-11**

Be' sy' mlaen yn eich Canolfan Gymunedol agosaf — **Td.12**

Datblygiad Cymunedol - diweddariad — **Td.18**

Ymgysylltu â Thenantiaid - cymryd rhan — **Td.19**

Gwella mannau chwarae — **Td.20**

## Buddsoddiad:

Rhaglen arwynebau allanol newydd ar gyfer adeiladau — **Td.4**

Gwelliannau Mewnol — **Td.5**

Gwelliannau Tai — **Td.5**

Bro Havard, Llanelwy - diweddariad — **Td.5**

Datblygiadau Tai, Tai newydd — **Td.10**

## Mannau Gwyrdd:

Tîm Tasg Y Rhyl – yn gwneud gwahaniaeth — **Td.14**

Y cyngor gorau ar gyfer garddio'r Haf hwn — **Td.15**

Ceidwaid Gwyrdd — **Td.15**

## Bwrdd Newyddion



**Teleofal**
0300 123 3068

**Gwasanaethau Cwsmeriaid**
01824 706000

**Rhif Argyfwng y tu allan i oriau swyddfa**
0300 123 3068

**Llinell Llifogydd**
0345 988 1188

**Rhif Argyfwng Nwy**
0800 111 999

**Rhif Argyfwng Trydan**
0800 404 090

**Galw Iechyd Cymru**
0845 46 47





# Cyflwyniad gan Jamie

Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Tai

Croeso i'r rhifyn diwethaf rydym wedi parhau i fuddsoddi yn eich cartrefi a'ch cymunedau. Rydym yn buddsoddi ein hincwm o'ch rhent chi mewn gwella tai a chymdogaethau drwy amrywiaeth o brosiectau a rhaglenni. Mae manylion am rai o'r rhain wedi'u cynnwys yn y newyddlen a gobeithio y bydd yn ddiddorol.

Ers y newyddlen ddiwethaf rydym hefyd wedi ysgrifennu atoch am y cynnydd blynyddol yn eich rhent ac am ddiwedd yr Hawl i Brynu yng Nghymru.

Rydym yn gwneud ein gorau i gadw safon eich tai mor uchel â phosibl, ond pobl, nid tai sy'n gwneud cymunedau. Rydym yn wirioneddol werthfawrogi ymdrechion yr holl denantiaid a phreswylwyr sy'n rhoi eu hamser i gefnogi eu cymdogion, rhedeg gweithgareddau a chymryd diddordeb yn eu cymunedau yn gyffredinol. Mae llawer iawn o'r hyn sy'n gwneud cymunedau'n wych digwydd yn y cefndir ond yn ddiweddarach eleni byddwn yn lansio ein Gwobrau Tenantiaid Sir Ddinbych cyntaf un, fel y gallwn ddatgelu a chydnabod rhai o'r bobl yn ein cymunedau sy'n gwneud cymaint i'w gwneud y llefydd ardderchog i fyw.

Rydym eisiau gweithio'n agos â phreswylwyr er mwyn i ni allu symud ymlaen gyda'n gilydd. Rydym wedi cynnwys llawer o wybodaeth am ein gweithgareddau ymgysylltu â thenantiaid ac rydym yn eich annog chi i gysylltu â ni i gweithio gyda'n gilydd i gynllunio ar gyfer dyfodol eich cartrefi a'ch cymunedau.

Mwynhewch ddarllen y rhifyn hwn ac fel arfer cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw sylwadau neu syniadau ar gyfer eich newyddlen.

# Neges gan Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych (DTARF)

Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych
Denbighshire Tenants and Residents Federation

Mae'r DTARF wedi'i sefydlu ers dros 20 mlynedd bellach ac wedi cyflawni gymaint ar ran tenantiaid a thrigolion Tai Sir Ddinbych.

**Pwy ydym ni?**

Rydym yn grwp o denantiaid a phreswylwyr sydd yn chwarae ein rhan yn ein cymunedau ar draws y Sir. Yn llais dros denantiaid, rydym yn gweithio gyda Thai Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r safonau uchaf bosibl ar gyfer tenantiaid a'u cymunedau. Mae Aelodau DTARF yn eistedd ar grŵp golygyddol y newyddlen hon ac yn ymfalchïo mewn cyfrannu at y cynnwys. Gobeithiwn y byddwch yn ei fwynhau.

**Ein nod**

Ceisio sicrhau fod pobl yn byw bywydau mwy diogel a chyfforddus a gwella bywyd cymunedol.

Rydym yn falch o groesawu aelodau newydd i DTARF. Rydym yn cyfarfod bob mis mewn gwahanol leoliadau ar draws Sir Ddinbych, felly bydd gyfle i chi fynychu cyfarfod yn agos at eich cartref chi. Mae grant ar gael bob blwyddyn i aelodau o unrhyw gymdeithas preswylwyr i helpu i wireddu eu nodau drwy Gyngor Sir Ddinbych.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am DTARF cysylltwch â John Woodward, Cadeirydd **dtarf@hotmail.com**

# Rhaglen Fuddsoddi 2018

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn nifer fawr o tai dros y 12 mis nesaf, yn ogystal â gwaith gwella o dan Safonau Ansawdd Tai Cymru.**

## Rhaglen Gorchuddio Allanol

**Rydym wedi adnabod nifer o gartrefi angen gwaith tu allan er mwyn sicrhau bod ein stoc tai yn parhau i fod mewn cyflwr da. Yn ogystal â gwelliannau i'r stoc tai, rydym hefyd yn bwriadu gwneud nifer o welliannau amgylcheddol gyda'r nod o adfywio ystadau cyfan. Bydd y gwaith yn cynnwys yr elfennau canlynol:**

- Toeau newydd
- Trwsio waliau allanol gan gynnwys rendro
- Llinellau toeau newydd gan gynnwys nwyddau dŵr glaw
- Portshys a chanopïau newydd
- Ffensys a gatiau newydd
- Llwybrau newydd
- Gwell goleuadau stryd
- Gwell priffyrdd a mesurau i leihau cyflymder traffig

Mae'r gwaith yn cael ei wneud fel rhan o raglen tair blynedd o welliannau sydd hyd yma wedi gwella dros 150 o dai.

Yn ystod 2018/19 rydym yn bwriadu cwblhau gwelliannau mawr i nifer o tai tebyg yn yr ardalaedd isod:

**42** Tai yn Y Rhyl

**23** Tai yn Rhuthun

**41** Tai yn Llangollen

Byddwn hefyd yn dechrau gwneud arolygon yn Sir Ddinbych yn ystod 2018/19 er mwyn nodi gwellianna tai fydd yn rhan o'n rhaglen gwaith yn 2019/20.

Yn ychwanegol at ein rhaglen waith allanol, byddwn hefyd yn uwchraddio sawl ty arall gydag arwynebau, soffitiau a chwteri newydd, yn ogystal â rhaglen o osod ffenestri a phortshys newydd.





## Ailwampio Mewnol

Rydym wedi dynodi 70 tŷ yn y Rhyl fydd yn cael eu gwella yn fewnol yn ystod 2018. Bydd y gwaith yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd a gwaith trydanol. Bydd nifer o raglenni gwella tebyg i hwn yn cael eu cwblhau dros y blynyddoedd nesaf, er mwyn sicrhau y cynhelir safon uchel o flwyddyn i flwyddyn.



## Gwelliannau Gwresogi

Fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod ein cartrefi'n gwneud defnydd effeithiol â phosibl o ynni, rydym yn bwriadu uwchraddio 200 arall o foeleri nwy a gwresogi dwr cyfunol yn ystod 2018/19. Rydym hefyd yn bwriadu cwblhau cynllun peilot bach i adnewyddu nifer o systemau Economi 7 gyda systemau gwres trydanol mwy effeithiol. Bydd rhaglen uwchraddio fwy wedyn yn cael ei hystyried yn y dyfodol ar gyfer tai nad ydynt ar y rhwydwaith nwy.


## Gwelliannau ar Ystâd Bro Harvard

Yn rhifyn yr Hydref, cyhoeddwyd prosiect o welliannau amgylcheddol cyffrous gwerth £1.2m yn Llanelwy. Rydym yn awr sawl mis i mewn i'r prosiect ac eisoes yn gweld nifer o welliannau yn y gymuned, gan gynnwys gwell ffyrdd a llwybrau a gwaith tirlunio. Disgwylir y bydd cam 1 a 2 o'r prosiect wedi eu cwblhau'r Hydref hwn ac y bydd gwell parcio, mesurau i leihau cyflymder traffig ac ardal naturiol i'r gymuned mwynhau.

Gan fod y prosiect wedi bod mor llwyddiannus, gallwn symud ymlaen i gam 3, sy'n cynnwys gwelliannau i'r ffyrdd a llwybrau ar gyfer gweddill Heol Clwyd a Llwyn Elwy, gan olygu y bydd yr ardal gyfan wedi'i gwella. Byd y gwaith tirlunio meddal a phlannu coed yn digwydd fis Medi, a bydd yr ardal gyfan yn gweld y manteision y Gwanwyn nesaf.

**Hydref 2017 cyn y gwelliannau**







**Gwanwyn 18 yn ystod y gwelliannau**







Mae'r prosiect yn rhan o'n hymrwymiad i fuddsoddi yn ein cymunedau a gwella cymdogaethau, y seilwaith a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau llefydd cadarnhaol i fyw. Mae Tai Sir Ddinbych, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi buddsoddi yn y prosiect.

# Sbotolau ar y Gymuned – Canolfan Gymunedol Cysgodfa Dinbych

*Gan Marion Bryan, Ysgrifenyddes DTARF a phreswylydd Cysgodfa*

Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych
Denbighshire Tenants and Residents Federation

**Mae Cysgodfa yn cynnwys 36 o fflatiau a chanolfan gymunedol sydd ar agor i'r trigolion a'r gymuned ehangach yn sir Ddinbych.**

Dros y blynyddoedd, mae pob math o wahanol ddigwyddiadau wedi'u cynnal yn y ganolfan, gan gynnwys dathliadau Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop, nosweithiau cwis, partis Nadolig a phen-blwydd, bingo, clybiau brecwast a chinio, nosweithiau amlddiwylliannol a llawer iawn mwy.

Mae gennym ystafell cyfryngau sy'n cynnwys cyfrifiaduron, gliniaduron, Teclynnau iPad, argraffydd ac amrywiaeth o offer arall. Gellir gwneud trefniadau i bobl ddefnyddio'r ystafell cyfryngau ac mae help ar gael i'r rhai hynny sydd angen cymorth.

Ar hyn o bryd mae nifer o weithgareddau a digwyddiadau ar gyfer pawb yn cael eu cynnal yma, gan gynnwys:

## Chwist:

Yn cael ei gynnal:

- bob nos Wener am 7.30pm
- y dydd Mercher cyntaf bob mis ac
- ar y 5ed dydd Iau o'r mis

Mae'r chwaraewyr bob amser yn chwilio am bobl newydd i ymuno ac yn rhoi croeso mawr i bawb felly beth am ddod draw a rhoi cynnig arni?

## Clwb Strôc:

Bob bore dydd Mawrth mae'r Clwb Strôc yn cynnig gweithgareddau addas ar gyfer y rhai hynny sydd wedi dioddef strôc ac o dro i dro yn gwahodd siaradwyr gwadd. Mae'r Clwb yn gyfle delfrydol i wneud ffrindiau newydd, cymdeithasu a mwynhau'r amrywiol weithgareddau hamdden sydd ar gael.

## Pwyntiau Siarad:

Mae Pwyntiau Siarad yn ffordd i bobl gael gwybod am y gwahanol fathau o help sydd ar gael i gefnogi iechyd a lles yn eu hardaloedd lleol. Cynhelir sesiwn yng Nghysgodfa bob yn ail fore dydd Mercher lle cewch gyfle i sgwrsio am yr hyn sy'n bwysig i chi.

## Age Connects:

Mae Age Connects yn arbenigo mewn cefnogi pobl dros hanner cant gan gynnig amrywiaeth o ffyrdd o helpu oedolion o bob oed. Maen nhw'n dod i'r ganolfan bob chwe wythnos a bydd gweithwyr gwahanol sefydliadau megis Cyngor ar Bopeth, Y Gwasanaeth Tân a Chyfreithwyr yn bresennol i gynnig cymorth.

## Grŵp Diogelwch Sir Ddinbych:

Cyfarfu Grŵp Diogelwch Sir Ddinbych ar ddydd Mercher olaf y mis am 7.15pm, a daeth cynrychiolwyr o Gyngor Sir Ddinbych, Heddlu Gogledd Cymru, Grŵp Cynefin, Cyngor Tref Dinbych a Chynghorwyr Sir draw i sgwrsio gyda'r trigolion a phobl leol am sut i gael mynediad at wasanaethau a'r hyn y gallant ei wneud i wneud i gymunedau deimlo'n fwy diogel.

## Plant Lleol:

Mae plant Ysgol y Parc wedi bod yn dod i 'Creu' ar bnawn dydd Iau i fwynhau gwneud gwaith celf gyda thrigolion Cysgodfa ac eraill o'r gymuned. Mae hyn wedi bod yn llawer o hwyl gyda phawb a ddaeth draw wedi mwynhau eu hunain.

## Yn Dod yn Fuan:

Bydd Erobeg Cadair Freichiau a Cerdded a Sgwrsio Dinbych yn dechrau cyn bo hir ac mae croeso i bawb.



## Bwcio'r Ganolfan Gymunedol?

Mae ein canolfan gymunedol yn lle delfrydol i gynnal partis a digwyddiadau cymdeithasol eraill.

- Ar gael o  ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am-5pm neu'n hwyrach os am gynnal digwyddiad gyda'r nos.
- Hyd at 40 o bobl
- Cegin gyda phopty mawr, oergell, rhewgell a pheiriant golchi llestri a'r holl gyfarpar angenrheidiol.
- Digon o blatiau a chyllyll a ffyrc ar gyfer 40 o bobl
- Troli cadw bwyd yn boeth

Cysylltwch ag aelod o'r pwyllgor am ragor o wybodaeth neu i hurio'r ganolfan.













# Cyngor ar sut i arbed arian gan un o'n tenantiaid

Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych
Denbighshire Tenants and Residents Federation

## Beth am newid darparwr?

*Gan Marion Bryan, Ysgrifenyddes DTARF*

Dros y blynyddoedd diwethaf mae hi wedi mynd yn dynnach ar bawb yn ariannol ac nid yw cyflogau na phensiynau'n mynd mor bell ag yr oeddent erstalwm.  Fodd bynnag mae rhywbeth y gall pob un ohonom ei wneud er mwyn arbed arian, sef newid darparwr.

Mae rhai banciau'n cynnig eich talu chi am newid, ond yn gyntaf mae angen i chi weld pa ddarparwr yw'r gorau i chi.  Rwyf wedi arbed llawer iawn o arian dros y ddwy flynedd ddiwethaf drwy newid cwmni trydan a chwmni yswiriant car.  Mae amrywiaeth y prisiau am yr un gwasanaethau yn syfrdanol, ond mae'n rhaid i chi sicrhau fod y cwmni'n cynnig popeth yr ydych chi ei angen.

Nid yw'n costio unrhyw beth i newid a'r cwbl sydd angen i chi ei wneud yw mynd i wefannau fel Compare the Market, Confused.com, Go Compare ac ati.

Mewngofnodwch i'r safle, rhowch eich manylion i mewn a phwyswch fotwm.

Dewiswch gwmni a chael ddyfynbris. Unwaith yr ydych wedi penderfynu ar y cwmni sydd orau gennych chi, pwyswch fotwm ac fe wnân nhw bopeth i chi. Does dim hyd yn oed angen i chi symud o'ch cadair.

Os ydych yn newid eich cyfrif banc, bydd eich banc newydd yn trosglwyddo'r holl ddebydau uniongyrchol ayyb. Bydd eich cyflog yn mynd yn awtomatig i'ch cyfrif newydd a bydd y banc newydd yn anfon cerdyn ayyb atoch ar unwaith. Dim trafferth a dim byd i chi ei wneud.  Gyda'r trydan a'r nwy y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw anfon y darlleniad terfynol. A dyna fo!

Mae cwmnïau yswiriant car yn gwneud popeth i chi hefyd felly mae'n broses didrafferth a syml.

Os nad oes gennych chi gyfrifiadur, gofynnwch i rywun arall wneud hyn i chi, neu ewch i ganolfan gymunedol neu lyfrgell lle bydd rhywun yn barod iawn i'ch helpu.

# Credyd Cynhwysol a'r hyn y mae'n ei olygu i chi

Ar 11 Ebrill 2018 dechreuodd Sir Ddinbych roi Credyd Cynhwysol ar waith. Mae hyn yn golygu os ydych yn gwneud hawliad newydd, y bydd yn rhaid i chi wneud cais am Gredyd Cynhwysol. Gallwch wneud hawliad am Gredyd Cynhwysol os ydych ar incwm isel neu'n ddi-waith.

Byddwch hefyd yn cael eich effeithio os ydych yn derbyn y budd-daliadau canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Gysylltiedig ag Incwm
- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith
- Budd-dal Tai

Os ydych yn hawlio'r budd-daliadau neu gredydau treth hyn yn barod, does dim angen i chi wneud unrhyw beth ar hyn o bryd. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn cysylltu â chi i wneud unrhyw newidiadau i'ch budd-daliadau neu eich credydau treth.

Os ydych yn dechrau derbyn Credyd Cynhwysol bydd hyn yn disodli unrhyw fudd-daliadau neu gredydau treth eraill. Os ydych yn derbyn credydau treth gallwch ddewis gwneud cais am Gredyd Cynhwysol, yn dibynnu ar eich amgylchiadau, ond allwch chi ddim derbyn y ddau.

## Budd-dal Tai

Os ydych yn derbyn Budd-dal tai ar hyn o bryd, bydd hwn yn cael ei dalu'n uniongyrchol i Tai Sir Ddinbych ar eich rhan er mwyn helpu gyda'ch rhent. Bydd eich Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu'n uniongyrchol i chi, ochr yn ochr â'ch budd-daliadau eraill mewn un taliad. Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau fod eich rhent yn cael ei dalu bob mis.

## Os bydd eich amgylchiadau'n newid:

Os ydych yn derbyn y budd-daliadau neu'r credydau treth hyn a bod eich amgylchiadau'n newid, ni fyddwch wedyn yn gallu cael y budd-daliadau neu'r credydau treth hynny a bydd yn rhaid i chi wneud hawliad newydd am Gredyd Cynhwysol.

Mae Credyd Cynhwysol yn wasanaeth ar-lein llwyr ddigidol sy'n golygu y bydd arnoch angen mynediad i'r rhyngrwyd fel y gallwch wneud cais ar-lein. Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd yn eich cartref, ewch draw i'ch llyfrgell agosaf.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi lansio gwefan i'ch helpu chi i ddeall beth fydd Credyd Cynhwysol yn ei olygu i chi. **www.understandinguniversalcredit.gov.uk** neu fel arall cysylltwch â'n tîm incwm ar **01824 706000** am ragor o wybodeth.





# Wyddoch chi...?

**Mae Tai Sir Ddinbych yma i helpu ac wedi ymrwymo i gynorthwyo â'r trawsnewid i Gredyd Cynhwysol.**

**Gallwn roi cymorth a chyngor gyda'r canlynol:**

- Cymorth digidol a mynd ar-lein
- Gwybodaeth am sefydliadau all ddarparu offer TG cost isel i'w ddefnyddio yn y cartref
- Cymorth gyda chyllidebu a rheoli eich arian
- Rheoli dyledion
- Gwneud cais am Ostyngiad Treth y Cyngor
- Gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim
- Rheoli ôl-ddyled a rheoli tenantiaeth




Mewn rhai amgylchiadau, gyda'ch caniatâd chi, efallai y byddwn yn eich cyfeirio i darparwyr eraill am gymorth. I gael rhagor o wybodaeth gallwch gysylltu a'r tim tai ar **01824 706000.**

# Datblygiadau Tai

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Yn ein cylchlythyr diwethaf fe wnaethom gyhoeddi'r newyddion y byddwn yn dechrau adeiladu tai Cyngor newydd am y tro cyntaf ers dros 25 o flynyddoedd.**

Rydym newydd gael caniatâd cynllunio ar gyfer ein datblygiad cyntaf, sef pedwar fflat ar safle cantîn hen ysgol Bodnant yn Ffordd Caradoc, Prestatyn. Roeddem yn falch iawn o gael arian Grant Arloesedd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect hwn.

Mae gwaith wedi dechrau'n ddiweddar ar ddymchwel yr adeilad presennol a byddwn yn dechrau ar y gwaith o adeiladu'r fflatiau newydd yn ddiweddarach yr Haf hwn.

Cyn bo hir hefyd bydd cais cynllunio'n cael ei gyflwyno ar gyfer datblygu cartrefi newydd i gymryd lle Fflatiau Pennant yn Ninbych a byddwn yn dechrau gwaith ar droi tai yr ydym wedi ei brynu yn Brighton Road, Y Rhyl yn dri fflat.

Dim ond y datblygiad cyntaf yn ein rhaglen i adeiladu 170 o dai Cyngor newydd ledled y Sir dros y pedair blynedd nesaf yw hyn.





# Calendr Digwyddiadau – Haf 2018

**Bydd yr Haf hwn hyd yn oed yn fwy ac yn well gyda llu o ddigwyddiadau cymunedol a sirol i'r teulu cyfan eu mwynhau. Dyma ddim ond ychydig ohonyn nhw:**

## Mehefin

| Dyddiad | Enw'r Digwyddiad | Lleoliad | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|---|
| **2 Mehefin** | Gŵyl Sucasa | Castell Bodelwyddan | www.northeastwales.wales |
| **2-3 Mehefin** | Marchogion a Thywysogesau | Castell y Waun | www.croeso.cymru.com |
| **2-3 Mehefin** | Gala Cerbydau Rheilffyrdd Treftadaeth | Rheilffordd Llangollen | www.croeso.cymru.com |
| **,10 Mehefin** | Gŵyl Gerdded Wrecsam | Wrecsam | www.northeastwales.wales |
| **,10 Mehefin** | Race for Life | Y Rhyl | www.croeso.cymru.com |
| **10 Mehefin** | Gŵyl Chwedlau Cymru | Talacre | www.mythfestwales.co.uk/home |
| **17 Mehefin** | Gŵyl Chwedlau Cymru | Llandegla | www.mythfestwales.co.uk/home |
| **23 Mehefin** | RunFest Cymru | Y Rhyl | www.croeso.cymru.com |
| **23 Mehefin** | Gŵyl Canol Haf Dinbych | Dinbych | www.facebook.com/denbighmidsummer |
| **23 Mehefin** | Carnifal a Sioe Ceir Dinbych | Dinbych | www.denbighcarnival.co.uk/ |
| **30 Mehefin** | Top y Dref Rhuthun | Rhuthun | https://visitruthin.wales/events/2018/6 |
| **30-1 Gorffennaf** | Yr Ŵyl Fwyd Brydeinig | Castell Bodelwyddan | www.northeastwales.wales |












## Gorffennaf

| Dyddiad | Enw'r Digwyddiad | Lleoliad | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|---|
| **9 Gorffennaf** | Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen | Llangollen | http://international-eisteddfod.co.uk/ |
| **9 Gorffennaf** | Beicio Mynydd Traws Gwlad Cymru 2018 | Coed Llandegla | www.croeso.cymru.com |
| **9 Gorffennaf** | Gŵyl Ymylol Llangollen | Llangollen | www.llangollenfringe.co.uk/ |
| **20 Gorffennaf** | O dan y Bwâu 2014 | Trefor, Llangollen | www.northeastwales.wales |
| **21 Gorffennaf** | Carnifal Prestatyn | Prestatyn | www.prestatyncarnival.co.uk/ |

## Awst

| Dyddiad | Enw'r Digwyddiad | Lleoliad | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|---|
| **3-5 Awst** | Gŵyl Blues a Soul Gogledd Cymru | Yr Wyddgrug | http://www.nwbluesandsoul.co.uk/ |
| **4-5 Awst** | LLanbikefest 2018 | Llangollen | www.croeso.cymru.com |
| **11-12 Awst** | Gŵyl Tylwyth Teg Llangollen | Llangollen | http://northwalesfaeryfestival.com/ |
| **16 Awst** | Sioe Dinbych a Fflint | Dinbych | http://www.denbighandflintshow.com |
| **18 Awst** | Sioe Flodau Rhuthun | Rhuthun | http://www.ruthinflowershow.wales/ |
| **25 Awst** | Gŵyl Gymunedol Corwen – diwrnod o hwyl i'r teulu | Corwen | E-bost Sally sally@sdcp.org |
| **25 Awst** | Sioe Dinbych | Dinbych | www.croeso.cymru.com |
| **25-26 Awst** | Sioe Awyr y Rhyl | Y Rhyl | www.sirddinbych.gov.uk/Sioeawyryrhyl |

## Medi

| Dyddiad | Enw'r Digwyddiad | Lleoliad | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|---|
| **1-2 Medi** | Gŵyl Gerdded Corwen | Corwen | http://www.corwenwalkingfestival.co.uk/ |
| **7-9 Medi** | Gladfest 2018 | Penarlâg | https://www.gladstoneslibrary.org/events/events-courses-list/gladfest-2018 |
| **15-16 Medi** | Gŵyl fwyd a diod yr Wyddgrug | Yr Wyddgrug | www.croeso.cymru.com |
| **14-16 Medi** | Profiad Bywyd Da | Penarlâg | https://www.thegoodlifeexperience.co.uk/ |

Os hoffech gael gwybod mwy am y digwyddiadau hyn a rhai eraill yn eich ardal leol, ewch i **http://www.northeastwales.wales** or **https://www.sirddinbych.gov.uk** or **http://www.darganfodsirddinbych.wales**

# Be' sy' mlaen yn eich canolfan gymunedol agosaf?

**Mae gan nifer fawr o ganolfannau cymunedol hefyd ddigwyddiadau ar y gweill dros yr Haf. Dyma rai ohonynt:**

## Corwen (anfonwch e-bost at sally@sdcp.org am ragor o wybodaeth)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Clwb Dydd Iau** | Dydd Iau 10:00pm – 1:00pm | Y Ganolfan Gymunedol | Sesiwn galw heibio lle bydd Mind Dyffryn Clwyd, Cyfle Cymru, TRAK, OPUS, Talking Points yn bresennol |
| **Tai Chi** | Dydd Iau 1:30pm – 2:00pm | Y Ganolfan Gymunedol | Bob dydd Iau - £3 |
| **Dosbarthiadau Ymarferion Cadair Freichiau** | Boreau Mawrth | Canolfan Ni | |
| **Celf Rhyng-gen-hedlaeth** | I'w gadarnhau | Canolfan Gymunedol Gwyddelwern | Cludiant Cymunedol wedi'i ddarparu gan SDCP. |
| **Cawl A Chan** | Dydd Mawrth - Clwb Cinio | Y Ganolfan Gy-munedol | Cludiant Cymunedol wedi'i ddarparu gan SDCP. |
| **Dawnsio Disgo i Blant** | Dydd Mawrth:<br>5:00pm – 5:45pm 2-6 oed<br>5:45pm – 6:45pm 6-16 oed | Corwen | sally@sdcp.org |

## Llangollen (Canolfan Gymunedol Pengwern)

- Caffi Pengwern – 1pm - 3pm dyddiau Mercher – oriau agor i'w hymestyn, am restr lawn o weithgareddau neu os hoffech gymryd rhan cysylltwch â friendsofpengwern@hotmail.com.
- Côr Merched - Canolfan Gymunedol Pengwern - am ragor o wybodaeth cysylltwch â friendsofpengwern@hotmail.com
- Dosbarthiadau ymarferion cadair freichiau a sesiynau celf rhyng-genhedlaeth – am ragor o wybodaeth cysylltwch ag emily.reddy@denbighshire.gov.uk

Os ydych chi'n gwybod am unrhyw ddigwyddiad rheolaidd sy'n digwydd yn eich Canolfannau Tai Cymunedol Sir Ddinbych, rhowch wybod i ni ar **tai@sirddinbych.gov.uk**

## Rhuthun

- Rhuthun – Dosbarthiadau Ymarferion Cadair Freichiau 1.00pm - 2pm bob dydd Llun.

## Llys Coffa'r Rhyfel, Y Rhyl

- Dydd Mawrth:
  Cadwch yn ffit 1:30 pm
  Cinio prynhawn
- Dydd Iau:
  Bore Coffi 10 am-11:30am
  Bingo 6 pm-9pm





# Mynd yn ddigidol yr Haf hwn!

**Mae Tai Sir Ddinbych yn bwriadu mynd yn ddigidol yr Haf hwn. Os nad ydych wedi gwneud yn barod, beth am ein dilyn ar-lein ar gyfer yr holl newyddion a digwyddiadau y byddwn yn eu cynnal  yn eich ardal chi yn:**


**TaiSirDdinbych.DenbighshireHousing** | **@DCCHousing** | **dcchousing**

Hefyd, cadwch olwg am www.taisirddinbych.co.uk gan ein bod yn lansio cam cyntaf ein gwefan. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i chi weld gwybodaeth ar-lein ac i gysylltu â ni.  Os oes gennych chi syniadau am bethau y byddech yn hoffi eu gweld ar y wefan, cofiwch roi gwybod i ni.

Mae Rachel, ein Swyddog Cynhwysiant Ariannol a Digidol wedi bod yn gweithio gydag OPUS er mwyn helpu ein tenantiaid yng Nghysgodfa a Llys y Felin gyda'u sgiliau cyfrifiadur.   Mae'r sesiynau ar gael i unrhyw un sydd ddim wedi defnyddio cyfrifiadur, gliniadur neu iPad o'r blaen ac ar gyfer y rhai hynny sydd eisiau gwella eu sgiliau. Ar hyn o bryd mae'r tenantiaid yn cwblhau cyrsiau ar-lein am ddim sydd ar gael i ddatblygu sgiliau digidol ac i wneud y mwyaf o'r byd ar-lein.

Byddwn hefyd allan yn y cymunedau gyda'n hymgyrch 'Mynd yn Ddigidol' gan ddechrau yng Nghae Hywel, Dinbych ar 7 Awst rhwng 1-4pm.  Dewch draw i weld sut allwch chi fynd ar-lein a pha gefnogaeth a chymorth sydd ar gael i chi yn eich cymuned leol.

Mae gennym ystod o weithgareddau'r Haf wedi'u cynllunio a byddwn yn ymweld â nifer o ardaloedd ar draws y Sir, yn dibynnu ar y tywydd. Cadwch lygaid ar-lein am ddigwyddiad yn eich ardal chi.



# Tîm Tasg Y Rhyl yn gwneud gwahaniaeth i'r gymuned leol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mae grŵp o wirfoddolwyr wedi adfywio gardd gymunedol yn Y Rhyl ac wedi datblygu sgiliau newydd wrth wneud hynny.**

Mae'r gwirfoddolwyr  o Dîm Tasg Groundwork Gogledd Cymru, sydd i gyd dros 25, wedi gosod dwy fainc yn yr ardd yn Rhodfa Rhydwen yn ogystal â llwybr newydd ac wedi adeiladu pedwar cynhwysydd blodau pren i'w gosod yno.  Mae'r Tîm Tasg yn fenter newydd ar gyfer pobl dros 25 oed sy'n byw mewn clwstwr Cymunedau Dros Waith a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Gronfa Arloesedd Llywodraeth Cymru. Cafodd y prosiect ei redeg gan Groundwork Gogledd Cymru ar y cyd a'u partneriaid, Cymunedau Dros Waith.

Ym mis Ionawr dangosodd gwirfoddolwyr eu llwyddiannau a'u gwaith caled yng Nghanolfan y Phoenix ar Rodfa Rhydwen - canolfan sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr o'r gymuned leol.

Cyfrannodd y gwirfoddolwyr a ymunodd â'r Tim Tasg nifer fawr o oriau tuag at y prosiect 12 wythnos, gan dreulio dau ddiwrnod yr wythnos yn dysgu sgiliau newydd ar gwrs achrededig, yn ogystal â thaclo prosiect ymarferol a gwneud gwahaniaeth anferth i'r gymuned leol drwy adfywio'r ardd gymunedol.

Mae'r prosiect wedi profi i fod yn llwyddiant go iawn, gyda'r gwirfoddolwyr yn ennill hyder, yn dysgu sgiliau newydd ac yn gweithio fel rhan o dîm llewyrchus, gan arwain at sawl deilliant cadarnhaol.

Meddai Gary Bruffell, Cydlynydd Sgiliau Gwyrdd Groundwork Gogledd Cymru:***"Dwi'n hynod o falch o bawb sy'n rhan o'r prosiect; maen nhw i gyd wedi datblygu sgiliau newydd ac wedi ennill llawer iawn o hyder, a bydd hynny'n sicr yn gwella eu cyfleoedd."***


Meddai'r Cynghorydd Tony Thomas, aelod arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd Sir Ddinbych: ***""Roedd y Cyngor yn hynod falch o gael bod yn rhan o brosiect mor wych drwy ddarparu'r ardd.***

***"Mae'r prosiect hwn nid yn unig wedi helpu'r cyfranogwyr i ennill sgiliau newydd ond hefyd wedi bod o fudd go iawn i'r gymuned leol. Hoffem fel Cyngor longyfarch pawb oedd yn rhan o hyn."***











# Awydd gwneud ychydig o arddio'r Haf hwn?


**Dyma'r cyngor defnyddiol gan y tim Mannau Gwyrdd.**

Yr adeg hon o'r flwyddyn, gyda gobaith, rydym i gyd allan yn mwynhau'r tywydd braf a'n gerddi. Rydym wedi rhoi ychydig o gyfarwyddiadau at ei gilydd i'ch helpu chi i gadw'ch gardd yn hardd drwy gydol misoedd yr Haf. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, ewch i adran cyngor a gwybodaeth gwefan RHS: **www.rhs.org.uk**

**Ein 5 gair o gyngor i'ch helpu i gadw'ch gardd yn edrych ar ei gorau'r haf hwn:**

## Mehefin

1. Cadwch chwyn dan reolaeth
2. Clymwch blanhigion sy'n dringo
3. Plannwch flodau'r Haf
4. Plannwch eich cynwysyddion a'ch basgedi a'u rhoi yn eu lle
5. Rhowch hadau ar unrhyw fannau moel ar eich lawnt



## Gorffennaf

1. Rhowch ddŵr i gynwysyddion a basgedi yn ystod cyfnodau sych – gyda'r nos sydd orau
2. Tynnwch flodau wedi marw oddi ar eich planhigion
3. Daliwch ati i reoli'r chwyn
4. Torrwch y lawnt o leiaf unwaith yr wythnos
5. Tyfu eich tomatos eich hun? Tynnwch yr egin ochr er mwyn hyrwyddo tyfiant gwell

## Awst

1. Rhowch ddigon o ddŵr i blanhigion mewn cynwysyddion
2. Tynnwch unrhyw flodau wedi marw oddi ar blanhigion rhosod a thociwch rosod dringo
3. Daliwch ati i dynnu blodau wedi marw oddi ar eich holl blanhigion
4. Casglwch hadau eich hoff blanhigion i'w hau'r flwyddyn nesaf
5. Dechreuwch gynaeafu'r llysiau y gwnaethoch eu plannu yn y gwanwyn

Mi faswn' ni wrth ein boddau cael gweld lluniau o'ch gerddi chi'r Haf yma. Beth am eu postio nhw yn y cyfryngau cymdeithasol a'n tagio i ni yn **#TaiSirDdinbych** Hefyd cadwch lygad am ein cystadleuaeth arddio'n ddiweddarach eleni.

# Ceidwaid Gwyrdd

A allwch chi sbârio ychydig oriau y mis?

Oes gennych chi ddiddordeb yn eich amgylchedd a sut mae'n edrych yn y gymuned?

Beth am fod yn un o'n Ceidwaid Gwyrdd ?

Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â:

Sarah Jones
Cydlynydd Datblygu Cymunedol

**01824 706000**

Mannau gwyrdd
Greenspace



# Arolwg STAR – Arolwg o Denantiaid a Phreswylwyr

**Mae Tai Sir Ddinbych wedi gweld newidiadau mawr dros y 18 mis diwethaf. Rydym eisiau parhau i godi ein safonau i'r lefel uchaf bosibl ac mae angen i ni weithio gyda chi er mwyn cyflawni hynny.**

Yr Hydref hwn byddwn yn cynnal ein trydydd arolwg STAR. Yn 2016-17 fe wnaethom ofyn 7 cwestiwn craidd yn ymwneud yn benodol a'ch tai. Roedd y rhain yn ymwneud ag ansawdd cartrefi, gwerth am arian o ran rhenti a phrisiau gwasanaethau, eich cymdogaeth chi fel lle diogel i fyw, sut yr ydym yn gwrando arnoch ac yn gweithredu ar yr hyn yr ydych yn ei ddweud wrthym, a'r gwasanaeth hollgynhwysfawr yr ydym yn ei ddarparu.

Yn ychwanegol, gofynnom gwestiynau cyffredinol am ein henw da fel darparwr gwasanaethau tai, ein blaenoriaethau, ymddiriedaeth, staff, mynediad digidol, cyfathrebu ac iechyd a lles er mwyn rhoi gwell mewnwelediad i ni o sut y gallwn wella yn y meysydd hyn.

**Dyma grynodeb o'r hyn ddywedoch chi.**

Cafodd **3,344** o arolygon eu hanfon allan.

Derbyniwyd **592 (18%)** o arolygon wedi'u cwblhau, **561** o gopiau papur a **31** ar-lein.

Dywedodd **86%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ar **ansawdd cyffredinol eu cartref**

**2il** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.

Dywedodd **85%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon â'r **gymdogaeth gyffredinol.**

**3ydd** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.

Dywedodd **85%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon bod eu **rhent** yn rhoi gwerth am arian.

**3ydd** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.

Dywedodd **85%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ar y ffordd rydym yn delio â **gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.**

**1af** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.

Dywedodd **84%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon gyda'n **gwasanaeth cyffredinol**.

**3ydd** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.

Dywedodd **71%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ar y ffordd rydyn **yn gwrando ac yn gweithredu.**

**3ydd** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.



Roedd **45%**

o'r tenantiaid a ymatebodd yn defnyddio'r **rhyngrwyd.**

Cytunodd **71%**

neu'n cytuno'n gryf pan ofynnwyd "Rwy'n byw **ffordd iach o fyw**".

Roedd tenantiaid
## LLANGOLLEN A RHUDDLAN

yn bennaf yn rhoi sylwadau ar faterion gyda **gwaith trwsio mewnol, trwsio allanol a gwresogi.**

Yn bennaf roedd tenantiaid
## DINBYCH, Y RHYL A PHRESTATYN

yn rhoi sylwadau ar broblemau gyda **sbwriel, gerddi, goleuadau a baw cŵn.**

Cyfeiriodd tenantiaid
## CORWEN A LLANELWY

yn bennaf at faterion gyda **pharcio.**

Yn bennaf rhoddodd tenantiaid
## RUTHIN

sylwadau ar faterion **traffig** ac roeddent am weld mwy o ddigwyddiadau cymunedol, presenoldeb mwy **o swyddogion** a **gwell gwasanaeth bysiau.**

## 3 BLAENORIAETH EIN TENANTIAID

1. **Trwsio a chynnal a chadw**
2. **Gwrando ar farn trigolion a gweithredu arnyn nhw**
3. **Ansawdd cyffredinol eich cartref**

## Beth nesaf?

Ar gyfer arolwg STAR yr Hydref hwn, byddwn yn canolbwyntio ar yr un meysydd o adborth gennych chi, er mwyn mesur unrhyw welliant yn y gwasanaethau yr ydym wedi eu darparu. Gan ein bod yn mynd yn ddigidol yr Haf hwn, rydym yn gobeithio lansio arolwg STAR eleni ar-lein a'ch annog chi i'w ateb yn ddigidol. Fod bynnag rydym yn sylweddoli na all pawb fynd ar-lein felly bydd fersiynau papur o'r arolwg ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan neu gan aelodau o staff.

Bydd rhagor o wybodaeth am yr arolwg STAR cael ei rhannu gyda chi yn ddiweddarach eleni.

# Datblygiad Cymunedol - diweddariad

**Mae'r Tîm Datblygiad Cymunedol wedi bod yn gweithio'n galed dros y flwyddyn ddiwethaf yn ceisio dod i adnabod eu cymunedau a meithrin perthnasoedd er mwyn helpu i gefnogi cymunedau i ddod at ei gilydd a threfnu digwyddiadau, gweithgareddau a phrosiectau.**

## Be' da ni wedi bod yn ei wneud?

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio ar ac yn cefnogi nifer o weithgareddau a phrosiectau, gan gynnwys:

- Gweithio ar ein Strategaeth **Datblygiad Cymunedol ac Ymgysylltiad Tenantiaid** i ddatblygu cynllun gweithredu manwl i ni weithio tuag at ei gyflawni dros y 3 blynedd nesaf. Mae DTARF hefyd wedi chwarae rhan drwy adolygu'r cynlluniau drafft a byddant yn rhoi sêl bendith i'r copi terfynol cyn bo hir.
- Prosiect **Shark Bites** gan weithio ar y cyd a TAPE i greu ffilm fer i ddangos peryglon defnyddio siarcod benthyg i bontio unrhyw broblemau ariannol sydd gennych.



- Mae **Prosiect Porth Morfa** yn brosiect newydd, cyffrous ar y cyd a'r Artisans Collective, Gwasanaethau Tai a Chefn Gwlad Sir Ddinbych, Heddlu Gogledd Cymru, Prestatyn Iach, Groundwork a Chadwch Gymru'n Daclus. Drwy'r prosiect cafodd y man oedd wedi tyfu'n wyllt dros y ffordd i faes parcio Coed y Morfa ei glirio er mwyn creu lle natur cymunedol lle gall y gymuned ddod i helpu yn yr ardd neu eistedd ac ymlacio. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob dydd Iau rhwng 10am-2pm a gall unrhyw un o'r gymuned ddod draw a gwirfoddoli. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: @morfagatewayprestatyn on Facebook.
- **Mae Iechyd a Lles** - yn flaenoriaeth gorfforaethol yr ydym yn ei chymryd o ddifri. Rydym wedi bod yn gweithio gydag asiantaethau eraill a'r Tîm Lles Cymunedol i helpu i sefydlu nifer o brosiectau Rhagnodi Cymunedol ar draws ardal ddeheuol y sir, sy'n cynnwys: Ymarferion Cadair Freichiau, Siarad a Sgwrsio gydag Age Connect a Chlwb Creu, rhaglen Gelf integredig gyda Lles Cymunedol Sir Ddinbych a Grŵp Cynefin. Mae'r rhain ar hyn o bryd yn cael eu darparu yn Rhuthun, Dinbych, Llangollen a Chorwen. Os ydych chi'n rhan o grŵp a fyddai'n hoffi cael rhywbeth fel hyn yn eu cymuned yna cysylltwch a'ch Swyddog Datblygiad Cymunedol.
- **Cyfeillion Pengwern** Mae cymuned Pengwern wedi bod yn gweithio â Thai CSDd, OPUS, Grŵp Cynefin, Heddlu Gogledd Cymru, Severn Wye ac amrywiaeth o sefydliadau cymunedol i sefydlu Grŵp Cymunedol Cyfeillion Pengwern. Hyd yma mae'r grŵp wedi rhedeg gweithgareddau yn ystod gwyliau'r Haf ar gyfer plant lleol, sesiynau galw heibio cymunedol, Ffair Haf, sesiynau hyfforddi gydag OPUS, digwyddiadau'r Nadolig a llawer mwy. Os hoffech chwarae rhan mewn sefydlu amrywiaeth o brosiectau cymunedol neu fod yn aelod o'r grŵp cysylltwch â Chyfeillion Pengwern ar friendsofpengwern@hotmail.com. Mae'r grŵp ar hyn o bryd yn gweithio tuag at sefydlu caffi cymunedol a sied dynion/ieuenctid.
- **Ceisiadau grant ar gyfer prosiectau** – gan weithio gyda chymunedau lleol rydym wedi llwyddo i dderbyn nifer o grantiau.
  - Campfa Werdd Llandyrnog: £10,000 gan Gwobrau i Bawb a £1,000 gan ymgyrch Bag Am Oes Tesco.
  - Prosiect Mannau Gwyrdd Llantysilio (gwneud blychau a meinciau adar cymunedol): £1,000 gan Tesco – Bag Am Oes
  - Pengwern: wedi gwneud cais i ymgyrch Bag am Oes Tesco a hefyd wedi derbyn £1,300 gan Denbighshire Commuted
  - Trem y Foel: £4,500,00 o Wobrau i Bawb Cymru tuag at ddosbarthiadau Ymarferion Cadair Freichiau, gweithgareddau cymunedol a dodrefn y ganolfan gymunedol.



# Ymgysyllu a Thenantiaid – chwarae mwy o ran!

**Thema allweddol i'n Cydlynwyr Datblygiad Cymunedol yw cael ein tenantiaid i chwarae mwy o ran yn yr hyd yr ydym yn ei wneud. Dros y chwe mis diwethaf mae DTARF a thenantiaid eraill wedi bod yn rhan o drafodaethau am Tai Sir Ddinbych, gan gynnwys:**

## Gweithdai Trwsio

Mae DTARF wedi bod yn rhan o weithdai trwsio newydd lle maent yn cael sesiwn ar y cyd â staff Cynnal a Chadw Tai Sir Ddinbych i edrych ar ganlyniadau arolygon bodlonrwydd a pholisïau er mwyn gweld ar ba agwedd o'r gwaith maen nhw eisiau craffu.

## Ceidwaid Gwyrdd

Mae'r Tim Tai wedi bod yn gweithio'n galed yn y cefndir i wella prosesau'r Ceidwaid Gwyrdd. Rydym yn awr wedi ei gwneud yn haws i denantiaid gymryd rhan yn y rhaglen. Os hoffech chi cymryd rhan, cysylltwch â ni.

## Rwy'n Cymryd Rhan

Fel rhan o'n strategaeth newydd, rydym eisiau rhoi cyfle i chi gymryd rhan efo ni mor aml neu cyn lleied ag yr ydych yn ei ddymuno.



# Sut gallwch chi gymryd rhan?



**Rydym am i'n holl denantiaid:**

- gael llais ar sut mae ein gwasanaethau'n cael eu darparu,
- gweithio mewn partneriaeth â ni i barhau i wella cartrefi a'u cymunedau,
- gallu rhoi adborth i ni i wella ein gwasanaethau, ac

**I'n helpu i gyflawni hyn, rydym yn awyddus i glywed gennych. Os hoffech wirfoddoli a chymryd rhan. Mae gennym nifer o gyfleoedd a gweithgorau yr ydym yn edrych arnynt yn y dyfodol, gan gynnwys:**

- Golygu newyddlen
- Adborth Tenantiaid
- Cynhwysiant Digidol
- Cynhwysiant Ariannol
- Datblygu cymunedol

**Os ydych chi'n teimlo bod gennych unrhyw sgiliau a fyddai o fudd i'n hymrwymiad i fuddsoddi yn ein cymunedau a'u gwella, neu os ydych am ddatblygu sgiliau newydd, yna cysylltwch â ni ar 01824 706000 neu tai@sirddinbych.gov.uk**

# Gwella Mannau Chwarae:

**Rydym yn gobeithio eich bod chi i gyd wedi mwynhau antur neu ddau yn ein llefydd chwarae gwell.**

Yn Nigwyddiad Lansio Parc Chwarae Kingsley Avenue daeth y gymuned at ei gilydd i ddathlu'r lle chwarae newydd. Ar ôl adnewyddu'r parc, penderfynwyd y byddai digwyddiad agored yn ffordd dda o ymgysylltu â'r gymuned leol a'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r parc.

Er mwyn parhau gyda'n rhaglen o welliannau, rydym yn bwriadu buddsoddi ymhellach yn ein hardaloedd chwarae cyn yr Haf. Cafodd y mannau hyn eu dewis ar gyfer eu gwella yn seiliedig ar eu cyflwr a'u haddasrwydd, ac rydym yn edrych ymlaen at weld ein hardaloedd chwarae cymunedol yn fwrlwm o weithgaredd unwaith eto.

- **Parc Chwarae Maes Sadwrn, Henllan**
- **Geufron, Y Rhyl**
- **Maesfallen, Corwen**

